# Cofnodion

## Pwyllgor Archwilio

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Tachwedd 2021

Amser: 5.00 pm

Lleoliad: Cynghorwyr H Thomas, P Hourahine, R Mogford and J Jordan

Pamela Tasker (Governance Officers), Andrew Wathan (Chief Internal Auditor), Felicity Collins, Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Paul Flint (Performance and Research Business Partner), Dona Palmer (Audit Manager) and Meirion Rushworth (Head of Finance)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Mr J Baker, M Whitcutt, G Giles and R White

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim un

2 **Cofnodion Y Cyfarfod Diwethaf 29 Gorffennaf 2021**

Bod y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021 yn gofnod gwir a chywir.
Nododd y Cadeirydd fod yna gamau gweithredu ar gyfer yr Uwch-bartner Busnes Cyllid ar dudalen 7 o gofnodion y cyfarfod diwethaf.
Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod y cyfrifon wedi'u haddasu

3 **Cofrestr Risg Gorfforaethol (Chwarter 1 Ebrill i Fehefin)**

Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn monitro'r risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ei Gynllun Corfforaethol neu ddarparu gwasanaethau i'w gymunedau a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghasnewydd.
Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Trawsnewid a Chanolfan Gorfforaethol adroddiad i'r pwyllgor ac ailadroddodd mai rôl y pwyllgor oedd monitro'r trefniadau sydd ar waith a gwneud argymhellion i'r Cabinet yn seiliedig ar y trefniadau hynny.
Roedd y pwyllgor wedi derbyn adroddiad yn flaenorol ynghylch y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ynghyd â'r newidiadau i gylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ond nid oedd wedi newid ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda, ac roedd yn ymwneud â monitro trefniadau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r ffordd roedd risgiau'n cael eu rheoli.

**<u>Prif bwyntiau i'w nodi:</u>**

-

- Roedd 18 o risgiau corfforaethol a gariwyd i Chwarter 1 y flwyddyn hon a oedd yn parhau heb newid ers y chwarter blaenorol. Roedd yr un risg oedd wedi newid yn ymwneud â phandemig COVID-19 a bu gostyngiad yn y risg oherwydd sefyllfa'r Cyngor yn Chwarter 1. Roedd y risg honno'n destun newid a oedd y tu allan i reolaeth Cyngor Dinas Casnewydd yn seiliedig ar drosglwyddiad epidemiolegol y feirws a

mesurau lliniaru presennol sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru a'r llywodraeth ganolog.

- Cafwyd argymhellion blaenorol gan y pwyllgor ynghylch cynnal archwiliad 'dwfn' o rai o'r risgiau ac roedd yr adroddiad yn nodi'r rhan gyntaf o'r archwiliad dwfn hwnnw gan y Tîm Rheoli Corfforaethol o ran y risgiau sy'n ymwneud â'r seilwaith priffyrdd.

Crybwyllodd y Cadeirydd, er y bu gostyngiad mewn risgiau, fod hyn yn dal yn faes sydd yn y parth coch. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol a dywedodd ei fod yn cael ei fonitro drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a bod y ffigurau wedi cynyddu eto, felly byddai'r risg yn cynyddu yn y chwarteri dilynol.

**Cytunwyd:**

Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad.

4 **Archwilio Cyrff Rheoleiddio Cymru- Diweddariad 6 mis**

Ym mis Mai 2021, roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi diweddaru ei gylch gorchwyl i gyd-fynd â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn ei gylch gorchwyl, un o swyddogaethau'r pwyllgor yw *derbyn ac ystyried adroddiadau arolygu gan reoleiddwyr ac arolygwyr allanol a gwneud argymhellion a monitro gweithrediad a chydymffurfedd â chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt.* Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ar y gweithgarwch rheoleiddio a gwblhawyd yn y chwe mis cyntaf a'r sicrwydd a roddwyd bod y Cyngor yn cymryd camau angenrheidiol lle mae argymhellion wedi'u codi.
Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Trawsnewid a Chanolfan Gorfforaethol yr adroddiad i'r pwyllgor.

**<u>Prif Bwyntiau</u>**

-

- Dyma'r adroddiad cyntaf a gyflwynwyd i'r pwyllgor ac roedd yn ymdrin â gweithgarwch rheoleiddio Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd tabl ar dudalen 64 yr adroddiad a oedd yn cynnwys gweithgarwch Archwilio Cymru ar lefel genedlaethol a lleol gyda chyfres o argymhellion a chamau gweithredu yn ymwneud â gwaith lleol yn yr adroddiad.
- Yn ystod y cyfarfodydd dilynol, byddai'r pwyllgor yn derbyn diweddariadau ar y camau hynny i fonitro cynnydd.
- Mewn perthynas ag Arolygiaeth Gofal Cymru, bu dau arolygiad o gartrefi plant yn ystod y chwe mis diwethaf ond nid yw'r adroddiadau terfynol wedi'u cwblhau eto.
- Mewn perthynas ag Estyn, cynhaliwyd adolygiad thematig cenedlaethol y manylir arno ar dudalennau 67–68 yr adroddiad.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad i'w dderbyn, ac na ellid ei ddiwygio mewn unrhyw ffordd.
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr adroddiad yn gofnod o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan y cyrff rheoleiddiol a'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â nhw. Yn y cyfarfod nesaf, byddai diweddariad fel y gallai'r pwyllgor gwestiynu'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hynny.
Dywedodd y Cynghorydd Jordan mai meincnod oedd yr adroddiad ac y byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf.

**Cytunwyd:**

Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad.

5 **Adroddiad Blynyddol ar Reoli Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion 2021**

Ym mis Mai 2021, cytunodd y Cabinet ar y Polisi Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion newydd ar gyfer y Cyngor. Fel rhan o ofynion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, roedd bellach yn gyfrifol am *wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.*
Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor gan y Rheolwr Datrys Cwynion. Dyma'r adroddiad cyntaf i'r pwyllgor a rhoddodd drosolwg o'r ffordd y llwyddodd y Cyngor i reoli canmoliaeth, sylwadau a chwynion a'i berfformiad yn y cyfnod 2020–2021.

**<u>Prif bwyntiau</u>**

-

- Mae adroddiadau eraill wedi'u cwblhau ar yr un pwnc ers sawl blwyddyn sydd wedi mynd drwy'r Cabinet ac mae'r holl ystadegau blynyddol wedi'u trosglwyddo i'r Prif Archwilydd Mewnol.
- Adroddwyd cwynion i ysgolion ar wahân gan eu bod yn destun fframwaith statudol penodol. Fodd bynnag, cynhwyswyd cwynion ynghylch gwasanaethau addysg, e.e. prosesau gweinyddol.
- Roedd y polisïau a’r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer canmoliaeth, sylwadau a chwynion yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol mesurau a safonau’r Gymraeg.
- Roedd gofynion statudol y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn weithredol ochr yn ochr â'r polisi corfforaethol.
- Fel trosolwg, roedd cwsmeriaid yn gallu codi cwyn ffurfiol dros y ffôn, ar-lein, neu drwy ddefnyddio’r ap ar eu ffôn neu wyneb yn wyneb. Roedd cwsmeriaid yn gallu cyflwyno cwyn 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ac roedd yn cynnig mwy o hygyrchedd ac yn fwy cyfleus iddynt. Gellid cofnodi adborth a chanmoliaeth hefyd.
- Roedd yr Ombwdsmon yn canolbwyntio ar 'wneud pethau'n iawn' a chael staff cymwys a hyfforddedig, ac roedd hyfforddiant staff am ddim ar gael drwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Roedd y tîm cwynion yn y broses o greu eu hyfforddiant eu hunain, a oedd yn seiliedig ar fodiwlau ac a ategwyd gan e-ddysgu a oedd yn gysylltiedig â datblygu sefydliadol, a oedd yn hyfforddiant gorfodol.
- Derbyniwyd 174 o ganmoliaethau, 3,111 o sylwadau a 222 o gwynion a chafodd 208 o gwynion eu datrys cyn mynd at yr Ombwdsmon trwy broses y Cyngor. O'r cwynion hynny, roedd angen gwaith ymyrryd ar bum cwyn gan yr Ombwdsmon, felly roedd hyn yn isel iawn.
- Ar draws pob un o’r 22 awdurdod lleol, bu gostyngiad o 12.5% yn nifer y cwynion o gymharu â’r flwyddyn flaenorol, ond yn gyffredinol roeddent yn uwch mewn gwasanaethau rheng flaen, gyda’r pandemig yn chwarae rhan yn hyn wrth i nifer y cwynion gynyddu.
- Fodd bynnag, canolbwyntiodd yr Ombwdsmon ar adborth a chael sawl llwybr hygyrch i gwsmeriaid wneud cwyn yn ogystal â chael adborth gan achwynwyr ar sut yr ymdriniwyd â'r gŵyn.
- Anfonwyd holiadur yn awr at bobl a oedd yn cwyno yn y gobaith y byddai adborth yn cael ei ddarparu ar ba mor dda yr oedd y tîm cwynion yn perfformio.

Gofynnodd y Cadeirydd p’un a welwyd unrhyw dueddiadau.
Dywedodd y Rheolwr Datrys Cwynion ei bod yn anodd gweld unrhyw dueddiadau dros y 12 mis diwethaf ond y prif un oedd bod llawer o benderfyniadau a pholisïau wedi’u cyflwyno mewn perthynas â Gwasanaethau Dinas, sy’n cynnig llawer o wasanaethau er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Roedd llawer o bobl wedi gwneud cwynion mewn perthynas â gwneud apwyntiadau i fynd i'r canolfannau ailgylchu.
Derbyniwyd llawer o gwynion o ran hygyrchedd i barciau'r ddinas hefyd.

**Cwestiynau:**

Dywedodd y Cynghorydd Mogford fod ganddo ddiddordeb yn yr ochr ganmoliaeth a gofynnodd beth oedd y broses o gyflwyno canmoliaeth gan fod pobl yn llai parod i ganmol.
Dywedodd y Rheolwr Datrys Cwynion na dderbyniwyd unrhyw ganmoliaeth am wasanaethau plant, ond eu bod ar gael, ac roedd pobl yn gallu gwneud cwynion a chanmoliaeth yn yr un modd. Roedd angen mwy o waith i helpu staff i drafod unrhyw ganmoliaeth a dderbyniwyd.
Gwnaeth y Cynghorydd Jordan sylwadau ar y mynwentydd a'r rheswm dros gau mynwentydd yn ystod y pandemig. Eglurodd y Rheolwr Datrys Cwynion fod nifer y bobl yn gyfyngedig o ran pwy allai fynychu angladdau, a bod hynny'n peri gofid i anwyliaid. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gymaint o broblem bellach.
Gofynnodd y Cynghorydd Jordan p'un a oedd mynwentydd ar agor yn gyfan gwbl bellach.
Dywedodd y Rheolwr Datrys Cwynion nad oedd yn siŵr ynghylch y canllawiau presennol.
Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, os oedd hwn yn gwestiwn gweithredol, yna byddai'n well ei gyfeirio at y maes gwasanaeth.
Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Archwilydd Mewnol p'un a oedd wedi edrych ar yr adroddiad.
Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai'r adroddiad yn cael ei ymgorffori yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon a byddai'r ystadegau a ddarparwyd gan y Rheolwr Datrys Cwynion yn cael eu hymgorffori yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
Dywedodd y Cadeirydd mai meincnod oedd yr adroddiad a'r gobaith oedd na fyddai'n effeithio ar y flwyddyn nesaf.

**Cytunwyd:**

Nododd a chymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad

6 **Datganiad o Gyfrifon 2020/2021**

Gofynnodd y Pennaeth Cyllid i **eitem 11 o Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol** 2020/2021 gael ei chynnwys yn yr eitem hon.
Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y byddai ei gydweithiwr Mark Howcroft (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) yn mynd trwy gyflwyniad 7b i roi trosolwg o'r cyfrifon. Byddai Rheolwr Archwilio Cymru yn mynd drwy'r adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260, sef barn Archwilio Cymru ar y cyfrifon.
Yna, i gloi, dychwelir at eitem 7 gan fod yr adroddiad yn dangos ymatebion y timau i'r materion a nodwyd yn yr adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260 a rhestr o gamddatganiadau a nodwyd ac a gywirwyd.

## Prif Bwyntiau

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod y cyflwyniad yn egluro'r sefyllfa gryno gan y cafodd y gyfres ddrafft o gyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2021 – dyddiad a gafodd ei ohirio oherwydd COVID-19 a salwch staff. Cyhoeddwyd yr hysbysiadau angenrheidiol ar y wefan yn egluro'r rheswm dros yr oedi, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Cafodd y cyfrifon eu harddangos i'r cyhoedd rhwng 26 Gorffennaf 2021 a 20 Awst 2021 heb unrhyw ymatebion.
- Roedd papur ar wahân y cyfeiriwyd ato ar ddechrau eitem 7 yn manylu ar faint o ymholiadau a godwyd mewn perthynas â'r cyflwyniadau cyfrif drafft ac roedd hwn yn ymdrin â'r pedwar pwynt a godwyd yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf gan y Cadeirydd.
- Roedd y cyfrifon terfynol yn adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed yn ystod yr ymarfer hwnnw ac ar y cyd â'r adolygiad gan Archwilio Cymru, y manylwyd ar ei ganfyddiadau yn yr adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260 a oedd i'w ystyried ar ddiwedd y cyflwyniad.
- Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod y cyfrifon yn ddarlun cywir a theg.

- Gofynnwyd i'r pwyllgor gymeradwyo'r cyfrifon terfynol, a fyddai wedyn yn arwain at eu hardystio gan y Pennaeth Cyllid a'r Cadeirydd.
- Byddai copi newydd yn cael ei anfon at y cadeirydd dros dro i'w lofnodi.
- Roedd pum datganiad allweddol yn hanner cyntaf y ddogfen, sef dogfen graidd y Cyngor, ac roedd yr incwm a'r gwariant yn dal holl weithgareddau refeniw'r Cyngor. Roedd y dadansoddiad o wariant cyllid yn bwysig gan fod yr aelodau wedi derbyn gwybodaeth reoli yn ystod y flwyddyn o ran perfformiad yn erbyn y gyllideb a gallai hyn fod yn wahanol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Eglurwyd bod y dogfennau technegol hyn yn cynnwys pethau fel symudiadau asedau sefydlog ac ati, a fyddai'n digwydd ar ôl y monitro chwarterol, fel bod y dadansoddiad o wariant cyllid yn cael ei gysoni rhwng y ddwy ddogfen.
- Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn yw iechyd y sefydliad i ymdrin ag argyfyngau a digwyddiadau annisgwyl.
- Roedd y fantolen ac agweddau asedau sefydlog yn bwynt allweddol gan fod gan y Cyngor lawer o asedau y byddai'r archwilwyr yn edrych arnynt oherwydd arwyddocâd y ffigurau dan sylw.
- Roedd y Datganiad Llif Arian yn dangos y symudiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yr awdurdod yn ystod y flwyddyn.

Y neges allweddol oedd bod tanwariant o £40 miliwn fel yr adroddwyd i'r Cabinet ym mis Mehefin 2021 ac nid oedd hyn wedi newid o'r ffigwr a adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021. Yr un oedd yr achosion o ran maint y derbyniadau untro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, y tanwariant ar draws yr holl wasanaethau mewn perthynas â chostau gweinyddu cyffredinol a darparu gwasanaethau oherwydd newidiadau mewn arferion gwaith, a pheidio â chyflawni gwasanaethau arferol / wedi'u cynllunio gan nad oedd eu hangen neu nad oedd modd eu cyflawni oherwydd bod gwaith ymateb i COVID-19 yn cael ei flaenoriaethu. Yr oedd hefyd oherwydd tanwariant yn ei gyllideb refeniw wrth gefn gyffredinol, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ac incwm y dreth gyngor.

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos diffyg o £8.8 miliwn ar ddarpariaeth gwasanaethau.
- Nid oedd y Rhaglen Gwariant Cyfalaf wedi newid ers mis Gorffennaf 2021 a'r canlyniad oedd gwariant o £26 miliwn a chafodd £7.1 miliwn ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol.
- Symudwyd y tanwariant refeniw o £14 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ac roedd gan y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn swm net o £21 miliwn. Cafodd tanwariant ysgolion o £8 miliwn ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn ysgolion, a oedd yn sefyllfa artiffisial oherwydd, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau ychwanegol i ysgolion ar gyfer gwaith cynnal a chadw ysgolion ac ati.
- Trosglwyddwyd y tanwariant o £14 miliwn i gyfres o gronfeydd wrth gefn.
- Roedd balans defnyddiadwy wrth gefn o £108 miliwn wedi'i rannu rhwng balans Cronfa'r Cyngor o £6.5 miliwn, balansau a ddelir gan ysgolion (£10 miliwn) a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. O'r £85 miliwn, roedd £42 miliwn yn rhan o'r gronfa menter cyllid preifat wrth gefn ac roedd yn adlewyrchu'r ffaith bod rhwymedigaethau parhaus.
- Roedd derbyniadau wedi'u cadw pryd bynnag y mae'r Cyngor yn gwerthu unrhyw beth, ac roedd yr arian hwnnw'n cael ei glustnodi i gronfa benodol i'w ddefnyddio ar gyfer buddsoddi mewn asedau yn y dyfodol a chynlluniau dygwyd ymlaen o dan y rhaglen gyfalaf.
- Caniatawyd i'r Cyngor roi arian o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau benthyciadau lle'r oedd ansicrwydd ynghylch amseriad a symiau.

Daeth y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r casgliad ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol a'i bod yn foddhaol derbyn dyfarniad cywir a theg er gwaethaf newidiadau mewn personél a llai o gapasiti tîm. Parhaodd COVID-19 i chwarae rhan yn y cyflwyniad cyfrifon o ran cymhlethdodau posibl gan fod llawer o arian wedi dod i law yn hwyr yn y flwyddyn ariannol mewn perthynas â hawliadau COVID-19. Roedd trefniadau asiantaeth, lle trefnwyd arian a gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru, yn golygu dangos y cyfrifon hynny mewn ffordd wahanol.

- Bu newidiadau gweddol sylweddol hefyd yng nghyflwyniad y cyfrifon eleni ac ailbrisiwyd y portffolio ysgolion fel rhan o'r gwaith asedau sefydlog.
- Codwyd pwynt a godwyd gan yr archwilwyr o ran cyflwyniadau benthyciadau di-log gan Lywodraeth Cymru ac roedd y trefniant hwn wedi'i ddiwygio ac roeddent bellach yn cydymffurfio â chaffaeliadau syml.
- Mewn perthynas â benthyciadau di-log, ehangwyd y defnydd o gymaryddion gwerth teg i roi mwy o ddealltwriaeth i'r gynulleidfa o'r rhwymedigaethau ariannol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu.

Crëwyd ased wrth gefn newydd i adlewyrchu'r rhwymedigaethau dyled gofal cymdeithasol hynny sy'n ddyledus.
Roedd trafodion pensiwn Cyngor Dinas Casnewydd a Thrafnidiaeth Casnewydd bellach wedi'u cyfuno.

Mewn perthynas â newidiadau adrodd ar bensiynau, roedd penderfyniad wedi ei wneud gan aelodau Cyngor Dinas Casnewydd (Medi 2020) i gefnogi Trafnidiaeth Casnewydd a'i heriau ariannol. O ganlyniad i hyn, roedd Trafnidiaeth Casnewydd wedi dangos ei rhwymedigaeth diffyg pensiwn yn ei chyfrifon. Paratowyd y cyfrifon drafft ar y sail bod manylion y cytundeb eto i'w cyrraedd, ond roedd darpariaethau'n cydnabod newid tebygol yn y rhwymedigaeth. Roedd cydnabyddiaeth ei bod yn debygol y byddai rhwymedigaeth y trefniant hwnnw'n newid a rhagwelwyd hynny'n briodol. Wrth archwilio Trafnidiaeth Casnewydd,
roedd archwilwyr y sefydliad yn ymholi am statws Trafnidiaeth Casnewydd fel corff derbyniedig o'i gymharu â bwriad gwreiddiol y cytundeb trosglwyddo, a chan fod awydd eisoes i helpu Trafnidiaeth Casnewydd trwy roi cymorth ariannol, penderfynwyd y gellid defnyddio'r cytundeb gwreiddiol yn lle dyfeisio cytundeb newydd. Felly, mae cofnodion ar gyfer pensiynau wedi'u cyfuno.

Roedd rhai newidiadau ynghylch lle byddai Trafnidiaeth Casnewydd, yn hanesyddol, wedi bod yn gyfrifol am dalu'r cyfraniadau i'r gronfa bensiwn a oedd yn eiddo iddi ar ran ei haelodau. Y Cyngor sydd â'r prif gyfrifoldeb bellach ac mae gan Drafnidiaeth Casnewydd rwymedigaeth dan gontract i'r Cyngor i'n talu am y costau hynny yn lle.

Nodwyd hefyd bod mwy o ddefnydd o amcangyfrifon.

Byddai'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu hailgyflwyno yn ystod cyfarfod Ionawr 2022 gan eu bod yn fwy perthnasol i'r archwiliad nesaf.
Gofynnodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r aelodau edrych ar eitem 7a, a oedd yn ymateb i'r adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260 ac awdurdodiad y Datganiad o Gyfrifon.

**Cwestiynau:**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jordan at dudalen 122, ynghylch cyfanswm y gwariant, lle bu naid sylweddol yn 2021/2022 o £26.2 miliwn i £100.2 miliwn a £62 miliwn.
Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod hyn yn adlewyrchu lefel y gwariant a

wariwyd yn hanesyddol ar gyfalaf a bod pethau fel llithriant wedi symud costau ymlaen.
Gwnaeth y Cynghorydd Jordan sylw am dystysgrif y Pennaeth Cyllid ar dudalen 127 a holodd am y term Grŵp Dinas Casnewydd, a chadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol mai Cyngor Dinas Casnewydd a Thrafnidiaeth Casnewydd oedd hwn.
Gwnaeth y Cynghorydd Jordan sylw am dudalen 140 mewn perthynas â Cham 1 2020/2021, lle mai nifer y cwynion wedi'i nodi fel 1,129 ond roedd nifer y cwynion yn 221 yn adroddiad y Rheolwr Datrys Cwynion.
Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol mai gwybodaeth oedd hon a ddarparwyd ar gyfer 2020/2021 ac, os oedd gwahaniaeth, byddai hyn yn cael ei wirio a'i gadarnhau i'r pwyllgor.
Gwnaeth y Cynghorydd Thomas sylw am y mater pensiwn mewn perthynas â Bws Casnewydd a dywedodd ei fod yn fodlon ei fod wedi'i ddatrys.
Diolchodd y Cadeirydd i'r staff am eu holl waith caled a gofynnodd a oedd unrhyw grantiau'n cael eu hadfachu gan Lywodraeth Cymru.
Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid nad oedd unrhyw adfachu.
Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol fod y cwestiwn cynharach ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 7.4 yn ymwneud â cheisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn hytrach na chwynion a chanmoliaeth a chan eu bod yn eitemau ar wahân roedd y ffigurau'n wahanol.

**Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol 2020/2021**

Cyflwynodd rheolwr Archwilio Cymru yr adroddiad i'r pwyllgor.

-
**<u>Prif bwyntiau:</u>**

-
- Roedd Archwilio Cymru yn cynnig barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol, a oedd yn newyddion da i Gyngor Dinas Casnewydd.
- Roedd ansicrwydd prisio sylweddol ynghylch prisio asedau adeiladau ac eiddo buddsoddi eleni oherwydd pandemig COVID-19.
- Mewn perthynas â'r dystysgrif archwilio, codwyd paragraff pwysleisio mater.
- Mae nifer o gywiriadau wedi'u gwneud o ganlyniad i'r broses archwilio, fel y nodir yn Atodiad 3.
- Roedd rhai camddatganiadau nas cywirwyd nad yw'r Cyngor wedi'u cywiro yn y cyfrifon terfynol ym mharagraff 15, a oedd yn fân eu gwerth.
- Ym mharagraff 18, roedd tri mater pellach: cyfuno darpariaeth pensiwn Trafnidiaeth Casnewydd i gyfrifon endid sengl Cyngor Casnewydd.
- Roedd hwn yn ymarfer technegol iawn gyda llawer o waith i'w wneud.
- Cynhaliwyd adolygiad o ddatganiadau o fuddiant aelodau, a thynnwyd sylw at y ffaith nad oedd naw aelod, o'r 50 o aelodau, wedi dychwelyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant wedi'u diweddaru ar gyfer y flwyddyn.
- Cafwyd gwaith dilynol ar fater a godwyd y llynedd ar brofi credydwyr yn y cyfrif, lle cronnwyd nifer o eitemau sampl yn anghywir yn y flwyddyn ariannol, ac eleni cynyddwyd lefel y profion a chanfuwyd un eitem arall a oedd wedi'i chronni'n anghywir.

Dywedodd Rheolwr Archwilio Cymru y bwriedid rhoi barn ddiamod ar y set hon o ddatganiadau ariannol a diolchwyd i'r holl staff dan sylw, a oedd yn hynod ymroddedig i'r dasg.
Dywedodd y Cadeirydd, pan adroddwyd y datganiadau o fuddiant y llynedd, y byddai templed neu weithdrefn yn cael ei chyflwyno a fyddai'n helpu.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod trefn wedi'i chyflwyno ond nad oedd yn gweithio ac y byddai'r Pennaeth Cyllid yn ysgrifennu at yr aelodau nad oedd yn datgelu eu datganiadau i'w hatgoffa o bwysigrwydd cyflwyno'r datganiadau hyn. Byddai'r Adran Gyllid yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Democrataidd i annog aelodau i gwblhau'r ddau ddatganiad o fuddiant ar yr un pryd.

**Datganiad o Gyfrifon**

Dychwelodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol at Eitem 7, y Datganiad o Gyfrifon, a chyflwynodd yr adroddiad eglurhaol i'r pwyllgor.

-
**Prif Bwyntiau:**

-
- Atodiad A ac Atodiad B oedd swmp yr adroddiad.
- Roedd adran ar y gwersi cychwynnol a ddysgwyd ond byddai gwersi manylach a ddysgwyd yn dychwelyd i'r pwyllgor ym mis Ionawr 2022.
- Roedd Atodiad A yn cyfeirio at effaith y pandemig a chwaraeodd ran yng ngallu'r tîm i weithio drwy'r broses o gau cyfrifon ac roedd hyn yn amlwg yn yr effeithiau ar adnoddau o fewn y tîm.
- Roedd y tanwariant o £40 miliwn hefyd yn ychwanegu amser at y broses gan fod angen penderfynu sut y byddai'r tanwariant hwn yn cael ei ddyrannu ar draws y cronfeydd wrth gefn a farciwyd.
- Bu oedi gyda'r cyfrifon drafft, ond diolchodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r tîm, a oedd yn gallu cwblhau'r cyfrifon gyda dim ond ychydig o oedi.
- Nodwyd 16 maes lle roedd angen cywiriadau ond roedd hyn yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol.
- Manylwyd ar y camddatganiadau nas cywirwyd ar dudalen 93 gydag esboniadau'n cael eu cynnwys ynghylch pam y digwyddodd hynny. Roedd pensiwn Trafnidiaeth Casnewydd o ganlyniad i wahaniaethau amseru rhwng y cyfrifon a oedd yn cael eu cynhyrchu ar ffurf ddrafft a'r penderfyniad a wnaed ynghylch sut y byddai'r cwmni'n cael ei gefnogi.
- Y prif reswm dros beidio â chywiro'r camddatganiadau hynny yw'r effaith ar falans y gronfa gyffredinol, a byddai angen symud y symiau hyn i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac nad oedd hynny'n ymarferol. Nodwyd yr hyn y gellid ei wneud i fynd i'r afael â hyn y flwyddyn nesaf yn yr adran gwersi a ddysgwyd.
- O ran datganiadau'r aelodau, o'r rhai a dderbyniwyd, nid oedd nifer ohonynt o ansawdd digonol. Roedd yn hollbwysig cael cydymffurfedd ac ysgrifennir at yr aelodau ynglŷn â'r mater hwn fel y crybwyllwyd eisoes.
- O ran camddatganiadau wedi'u cywiro, mae'r Adran Gyllid wedi ychwanegu sylwadau ynghylch pam mae'r rhain wedi digwydd.
- Yn Atodiad A, yr adran gwersi a ddysgwyd, nodwyd pedwar yr oedd angen eu hadolygu, sef y broses ar gyfer ad-daliadau mewnol, y broses ar gyfer cymeradwyo cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a'r rhai sy'n codi fel rhan o'r broses archwilio, ac edrychir ar y rhain i gywiro'r camddatganiadau hyn.
- Mewn perthynas â darpariaethau, roedd dealltwriaeth dechnegol yr oedd angen ei gwella.

Gofynnodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r pwyllgor roi ei awdurdod ac argymell cymeradwyo'r cyfrifon ac felly byddai'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid yn gallu cymeradwyo'r cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau i'w cyflwyno i Archwilio Cymru.
Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod angen i'r pwyllgor gynnal pleidlais ar p'un a ddylid cymeradwyo'r cyfrifon i'w cymeradwyo ynghyd â'r Llythyr Sylwadau. Roedd angen gwneud hyn yn electronig, felly byddai copi o'r cyfrifon yn cael ei anfon

at yr aelodau er mwyn iddynt gymeradwyo'r cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau a byddai angen i'r aelodau ddarparu eu llofnod electronig.
Os na ellid cwblhau hyn, gallai aelodau anfon e-bost i ddweud eu bod wedi cymeradwyo'r cyfrifon yn lle llofnodi'r ddogfen yn bersonol.
Roedd angen gwneud hyn cyn gynted â phosibl gan fod y cyfrifon i'w hadolygu a'u cymeradwyo gan yr Archwilydd Cyffredinol ddydd Mawrth nesaf.

**Cytunwyd:**

Cymeradwyodd y pwyllgor y cyfrifon a chytunwyd y byddai e-bost yn cael ei anfon at Gadeirydd y pwyllgor i'w lofnodi

7 **Adroddiad Rheoli'r Trysorlys**

Bwriad yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am weithgareddau'r trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hyd at 30 Medi 2021 a chadarnhaodd y glynwyd at yr holl ddangosyddion trysorlys a materion ariannol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol.
Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr adroddiad i'r pwyllgor ac eglurodd fod yr adroddiad hwn yn un o ddau adroddiad cydymffurfedd a dderbyniwyd gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynglŷn â Strategaeth y Trysorlys a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, a'i fod yn rhan o'r ddogfen strategaeth rôl. Ceisiodd dawelu meddwl bod mesurau perfformiad wedi'u bodloni.

**Prif Bwyntiau:**

- Arhosodd cyfradd sylfaenol y banc ar 1%.
- Roedd angen benthyca hirdymor o hyd wedi'i liniaru gan fenthyca mewnol.
- Mae lefelau benthyca wedi gostwng £9 miliwn o gymharu â ffigur diwedd y flwyddyn flaenorol, oherwydd cyfran o'r benthyciadau a ad-dalwyd drwy randaliadau cyfartal o'r prifswm a bod y prifswm wedi lleihau'r benthyciadau sy'n ddyledus.
- Roedd yna hefyd fenthyciad aeddfedu mawr a adbrynwyd ac na chafodd ei ailddarparu.
- Cynyddodd buddsoddiadau hefyd £4.1 miliwn i £28.9 miliwn yn erbyn y sefyllfa gyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn.
- O ran yr opsiynau i fenthyca neu i fenthyg (LOBO), nid oedd unrhyw alw am fenthyciadau yn ystod y cyfnod.
- Roedd adolygiad wedi'i wneud i'r cod ariannol a oedd yn cyfyngu ar awdurdodau lleol sy'n defnyddio eu swyddogaeth trysorlys i fuddsoddi mwy enillion neu arenillion. Roedd hyn yn golygu nad ydynt bellach yn gallu defnyddio'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus fel ffynhonnell cyllid rhad a bod cosbau eithaf sylweddol a chosbol pan fydd yr awdurdod yn y cyflwr hwnnw.
- Byddai'r adroddiad hwn wedyn yn mynd i'r Cabinet a'r Cyngor.

Nid oedd aelodau'r pwyllgor yn dymuno ychwanegu unrhyw sylwadau at yr adroddiad.

**Cytunwyd:**

Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.

8 **Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru**

Gofynnodd y Pennaeth Cyllid i **eitem 11 o Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol** 2020/2021 gael ei chynnwys yn yr eitem hon.
Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y byddai ei gydweithiwr Mark Howcroft (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) yn mynd trwy gyflwyniad 7b i roi trosolwg o'r cyfrifon. Byddai Rheolwr Archwilio Cymru yn mynd drwy'r adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260, sef barn Archwilio Cymru ar y cyfrifon.
Yna, i gloi, dychwelir at eitem 7 gan fod yr adroddiad yn dangos ymatebion y timau i'r materion a nodwyd yn yr adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260 a rhestr o gamddatganiadau a nodwyd ac a gywirwyd.

**Prif Bwyntiau**

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod y cyflwyniad yn egluro'r sefyllfa gryno gan y cafodd y gyfres ddrafft o gyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2021 – dyddiad a gafodd ei ohirio oherwydd COVID-19 a salwch staff. Cyhoeddwyd yr hysbysiadau angenrheidiol ar y wefan yn egluro'r rheswm dros yr oedi, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Cafodd y cyfrifon eu harddangos i'r cyhoedd rhwng 26 Gorffennaf 2021 a 20 Awst 2021 heb unrhyw ymatebion.
- Roedd papur ar wahân y cyfeiriwyd ato ar ddechrau eitem 7 yn manylu ar faint o ymholiadau a godwyd mewn perthynas â'r cyflwyniadau cyfrif drafft ac roedd hwn yn ymdrin â'r pedwar pwynt a godwyd yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf gan y Cadeirydd.
- Roedd y cyfrifon terfynol yn adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed yn ystod yr ymarfer hwnnw ac ar y cyd â'r adolygiad gan Archwilio Cymru, y manylwyd ar ei ganfyddiadau yn yr adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260 a oedd i'w ystyried ar ddiwedd y cyflwyniad.
- Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod y cyfrifon yn ddarlun cywir a theg.
- Gofynnwyd i'r pwyllgor gymeradwyo'r cyfrifon terfynol, a fyddai wedyn yn arwain at eu hardystio gan y Pennaeth Cyllid a'r Cadeirydd.
- Byddai copi newydd yn cael ei anfon at y cadeirydd dros dro i'w lofnodi.
- Roedd pum datganiad allweddol yn hanner cyntaf y ddogfen, sef dogfen graidd y Cyngor, ac roedd yr incwm a'r gwariant yn dal holl weithgareddau refeniw'r Cyngor. Roedd y dadansoddiad o wariant cyllid yn bwysig gan fod yr aelodau wedi derbyn gwybodaeth reoli yn ystod y flwyddyn o ran perfformiad yn erbyn y gyllideb a gallai hyn fod yn wahanol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Eglurwyd bod y dogfennau technegol hyn yn cynnwys pethau fel symudiadau asedau sefydlog ac ati, a fyddai'n digwydd ar ôl y monitro chwarterol, fel bod y dadansoddiad o wariant cyllid yn cael ei gysoni rhwng y ddwy ddogfen.
- Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn yw iechyd y sefydliad i ymdrin ag argyfyngau a digwyddiadau annisgwyl.
- Roedd y fantolen ac agweddau asedau sefydlog yn bwynt allweddol gan fod gan y Cyngor lawer o asedau y byddai'r archwilwyr yn edrych arnynt oherwydd arwyddocâd y ffigurau dan sylw.
- Roedd y Datganiad Llif Arian yn dangos y symudiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yr awdurdod yn ystod y flwyddyn.

Y neges allweddol oedd bod tanwariant o £40 miliwn fel yr adroddwyd i'r Cabinet ym mis Mehefin 2021 ac nid oedd hyn wedi newid o'r ffigwr a adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021. Yr un oedd yr achosion o ran maint y derbyniadau untro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, y tanwariant ar draws yr holl wasanaethau mewn perthynas â chostau gweinyddu cyffredinol a darparu gwasanaethau oherwydd newidiadau mewn arferion gwaith, a pheidio â chyflawni gwasanaethau arferol / wedi'u cynllunio gan nad oedd eu hangen neu nad oedd modd eu cyflawni

oherwydd bod gwaith ymateb i COVID-19 yn cael ei flaenoriaethu. Yr oedd hefyd oherwydd tanwariant yn ei gyllideb refeniw wrth gefn gyffredinol, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ac incwm y dreth gyngor.

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos diffyg o £8.8 miliwn ar ddarpariaeth gwasanaethau.
- Nid oedd y Rhaglen Gwariant Cyfalaf wedi newid ers mis Gorffennaf 2021 a'r canlyniad oedd gwariant o £26 miliwn a chafodd £7.1 miliwn ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol.
- Symudwyd y tanwariant refeniw o £14 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ac roedd gan y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn swm net o £21 miliwn. Cafodd tanwariant ysgolion o £8 miliwn ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn ysgolion, a oedd yn sefyllfa artiffisial oherwydd, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau ychwanegol i ysgolion ar gyfer gwaith cynnal a chadw ysgolion ac ati.
- Trosglwyddwyd y tanwariant o £14 miliwn i gyfres o gronfeydd wrth gefn.
- Roedd balans defnyddiadwy wrth gefn o £108 miliwn wedi'i rannu rhwng balans Cronfa'r Cyngor o £6.5 miliwn, balansau a ddelir gan ysgolion (£10 miliwn) a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. O'r £85 miliwn, roedd £42 miliwn yn rhan o'r gronfa menter cyllid preifat wrth gefn ac roedd yn adlewyrchu'r ffaith bod rhwymedigaethau parhaus.
- Roedd derbyniadau wedi'u cadw pryd bynnag y mae'r Cyngor yn gwerthu unrhyw beth, ac roedd yr arian hwnnw'n cael ei glustnodi i gronfa benodol i'w ddefnyddio ar gyfer buddsoddi mewn asedau yn y dyfodol a chynlluniau dygwyd ymlaen o dan y rhaglen gyfalaf.
- Caniatawyd i'r Cyngor roi arian o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau benthyciadau lle'r oedd ansicrwydd ynghylch amseriad a symiau.

Daeth y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r casgliad ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol a'i bod yn foddhaol derbyn dyfarniad cywir a theg er gwaethaf newidiadau mewn personél a llai o gapasiti tîm. Parhaodd COVID-19 i chwarae rhan yn y cyflwyniad cyfrifon o ran cymhlethdodau posibl gan fod llawer o arian wedi dod i law yn hwyr yn y flwyddyn ariannol mewn perthynas â hawliadau COVID-19. Roedd trefniadau asiantaeth, lle trefnwyd arian a gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru, yn golygu dangos y cyfrifon hynny mewn ffordd wahanol.

- Bu newidiadau gweddol sylweddol hefyd yng nghyflwyniad y cyfrifon eleni ac ailbrisiwyd y portffolio ysgolion fel rhan o'r gwaith asedau sefydlog.
- Codwyd pwynt a godwyd gan yr archwilwyr o ran cyflwyniadau benthyciadau di-log gan Lywodraeth Cymru ac roedd y trefniant hwn wedi'i ddiwygio ac roeddent bellach yn cydymffurfio â chaffaeliadau syml.
- Mewn perthynas â benthyciadau di-log, ehangwyd y defnydd o gymaryddion gwerth teg i roi mwy o ddealltwriaeth i'r gynulleidfa o'r rhwymedigaethau ariannol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu.

Crëwyd ased wrth gefn newydd i adlewyrchu'r rhwymedigaethau dyled gofal cymdeithasol hynny sy'n ddyledus.
Roedd trafodion pensiwn Cyngor Dinas Casnewydd a Thrafnidiaeth Casnewydd bellach wedi'u cyfuno.

Mewn perthynas â newidiadau adrodd ar bensiynau, roedd penderfyniad wedi ei wneud gan aelodau Cyngor Dinas Casnewydd (Medi 2020) i gefnogi Trafnidiaeth Casnewydd a'i heriau ariannol. O ganlyniad i hyn, roedd Trafnidiaeth Casnewydd wedi dangos ei rhwymedigaeth diffyg pensiwn yn ei chyfrifon. Paratowyd y cyfrifon drafft ar y sail bod manylion y cytundeb eto i'w cyrraedd, ond roedd darpariaethau'n cydnabod newid tebygol yn y rhwymedigaeth.

Roedd cydnabyddiaeth ei bod yn debygol y byddai rhwymedigaeth y trefniant hwnnw'n newid a rhagwelwyd hynny'n briodol. Wrth archwilio Trafnidiaeth Casnewydd,
roedd archwilwyr y sefydliad yn ymholi am statws Trafnidiaeth Casnewydd fel corff derbyniedig o'i gymharu â bwriad gwreiddiol y cytundeb trosglwyddo, a chan fod awydd eisoes i helpu Trafnidiaeth Casnewydd trwy roi cymorth ariannol, penderfynwyd y gellid defnyddio'r cytundeb gwreiddiol yn lle dyfeisio cytundeb newydd. Felly, mae cofnodion ar gyfer pensiynau wedi'u cyfuno.

Roedd rhai newidiadau ynghylch lle byddai Trafnidiaeth Casnewydd, yn hanesyddol, wedi bod yn gyfrifol am dalu'r cyfraniadau i'r gronfa bensiwn a oedd yn eiddo iddi ar ran ei haelodau. Y Cyngor sydd â'r prif gyfrifoldeb bellach ac mae gan Drafnidiaeth Casnewydd rwymedigaeth dan gontract i'r Cyngor i'n talu am y costau hynny yn lle.

Nodwyd hefyd bod mwy o ddefnydd o amcangyfrifon.

Byddai'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu hailgyflwyno yn ystod cyfarfod Ionawr 2022 gan eu bod yn fwy perthnasol i'r archwiliad nesaf.
Gofynnodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r aelodau edrych ar eitem 7a, a oedd yn ymateb i'r adroddiad ar Safon Archwilio Ryngwladol 260 ac awdurdodiad y Datganiad o Gyfrifon.

**Cwestiynau:**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jordan at dudalen 122, ynghylch cyfanswm y gwariant, lle bu naid sylweddol yn 2021/2022 o £26.2 miliwn i £100.2 miliwn a £62 miliwn.
Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod hyn yn adlewyrchu lefel y gwariant a wariwyd yn hanesyddol ar gyfalaf a bod pethau fel llithriant wedi symud costau ymlaen.
Gwnaeth y Cynghorydd Jordan sylw am dystysgrif y Pennaeth Cyllid ar dudalen 127 a holodd am y term Grŵp Dinas Casnewydd, a chadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol mai Cyngor Dinas Casnewydd a Thrafnidiaeth Casnewydd oedd hwn.
Gwnaeth y Cynghorydd Jordan sylw am dudalen 140 mewn perthynas â Cham 1 2020/2021, lle mai nifer y cwynion wedi'i nodi fel 1,129 ond roedd nifer y cwynion yn 221 yn adroddiad y Rheolwr Datrys Cwynion.
Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol mai gwybodaeth oedd hon a ddarparwyd ar gyfer 2020/2021 ac, os oedd gwahaniaeth, byddai hyn yn cael ei wirio a'i gadarnhau i'r pwyllgor.
Gwnaeth y Cynghorydd Thomas sylw am y mater pensiwn mewn perthynas â Bws Casnewydd a dywedodd ei fod yn fodlon ei fod wedi'i ddatrys.
Diolchodd y Cadeirydd i'r staff am eu holl waith caled a gofynnodd a oedd unrhyw grantiau'n cael eu hadfachu gan Lywodraeth Cymru.
Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid nad oedd unrhyw adfachu.
Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol fod y cwestiwn cynharach ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 7.4 yn ymwneud â cheisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn hytrach na chwynion a chanmoliaeth a chan eu bod yn eitemau ar wahân roedd y ffigurau'n wahanol.

**Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol 2020/2021**

Cyflwynodd rheolwr Archwilio Cymru yr adroddiad i'r pwyllgor.

**Prif bwyntiau:**

-

- Roedd Archwilio Cymru yn cynnig barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol, a oedd yn newyddion da i Gyngor Dinas Casnewydd.
- Roedd ansicrwydd prisio sylweddol ynghylch prisio asedau adeiladau ac eiddo buddsoddi eleni oherwydd pandemig COVID-19.
- Mewn perthynas â'r dystysgrif archwilio, codwyd paragraff pwysleisio mater.
- Mae nifer o gywiriadau wedi’u gwneud o ganlyniad i’r broses archwilio, fel y nodir yn Atodiad 3.
- Roedd rhai camddatganiadau nas cywirwyd nad yw'r Cyngor wedi'u cywiro yn y cyfrifon terfynol ym mharagraff 15, a oedd yn fân eu gwerth.
- Ym mharagraff 18, roedd tri mater pellach: cyfuno darpariaeth pensiwn Trafnidiaeth Casnewydd i gyfrifon endid sengl Cyngor Casnewydd.
- Roedd hwn yn ymarfer technegol iawn gyda llawer o waith i'w wneud.
- Cynhaliwyd adolygiad o ddatganiadau o fuddiant aelodau, a thynnwyd sylw at y ffaith nad oedd naw aelod, o’r 50 o aelodau, wedi dychwelyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant wedi’u diweddaru ar gyfer y flwyddyn.
- Cafwyd gwaith dilynol ar fater a godwyd y llynedd ar brofi credydwyr yn y cyfrif, lle cronnwyd nifer o eitemau sampl yn anghywir yn y flwyddyn ariannol, ac eleni cynyddwyd lefel y profion a chanfuwyd un eitem arall a oedd wedi'i chronni'n anghywir.

Dywedodd Rheolwr Archwilio Cymru y bwriedid rhoi barn ddiamod ar y set hon o ddatganiadau ariannol a diolchwyd i'r holl staff dan sylw, a oedd yn hynod ymroddedig i'r dasg.
Dywedodd y Cadeirydd, pan adroddwyd y datganiadau o fuddiant y llynedd, y byddai templed neu weithdrefn yn cael ei chyflwyno a fyddai'n helpu.
Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod trefn wedi'i chyflwyno ond nad oedd yn gweithio ac y byddai'r Pennaeth Cyllid yn ysgrifennu at yr aelodau nad oedd yn datgelu eu datganiadau i'w hatgoffa o bwysigrwydd cyflwyno'r datganiadau hyn. Byddai'r Adran Gyllid yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Democrataidd i annog aelodau i gwblhau'r ddau ddatganiad o fuddiant ar yr un pryd.

**Datganiad o Gyfrifon**

Dychwelodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol at Eitem 7, y Datganiad o Gyfrifon, a chyflwynodd yr adroddiad eglurhaol i'r pwyllgor.

-
**<u>Prif Bwyntiau:</u>**

-

- Atodiad A ac Atodiad B oedd swmp yr adroddiad.
- Roedd adran ar y gwersi cychwynnol a ddysgwyd ond byddai gwersi manylach a ddysgwyd yn dychwelyd i’r pwyllgor ym mis Ionawr 2022.
- Roedd Atodiad A yn cyfeirio at effaith y pandemig a chwaraeodd ran yng ngallu'r tîm i weithio drwy'r broses o gau cyfrifon ac roedd hyn yn amlwg yn yr effeithiau ar adnoddau o fewn y tîm.
- Roedd y tanwariant o £40 miliwn hefyd yn ychwanegu amser at y broses gan fod angen penderfynu sut y byddai'r tanwariant hwn yn cael ei ddyrannu ar draws y cronfeydd wrth gefn a farciwyd.
- Bu oedi gyda'r cyfrifon drafft, ond diolchodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r tîm, a oedd yn gallu cwblhau'r cyfrifon gyda dim ond ychydig o oedi.
- Nodwyd 16 maes lle roedd angen cywiriadau ond roedd hyn yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol.

- Manylwyd ar y camddatganiadau nas cywirwyd ar dudalen 93 gydag esboniadau'n cael eu cynnwys ynghylch pam y digwyddodd hynny. Roedd pensiwn Trafnidiaeth Casnewydd o ganlyniad i wahaniaethau amseru rhwng y cyfrifon a oedd yn cael eu cynhyrchu ar ffurf ddrafft a'r penderfyniad a wnaed ynghylch sut y byddai'r cwmni'n cael ei gefnogi.
- Y prif reswm dros beidio â chywiro'r camddatganiadau hynny yw'r effaith ar falans y gronfa gyffredinol, a byddai angen symud y symiau hyn i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac nad oedd hynny'n ymarferol. Nodwyd yr hyn y gellid ei wneud i fynd i'r afael â hyn y flwyddyn nesaf yn yr adran gwersi a ddysgwyd.
- O ran datganiadau'r aelodau, o'r rhai a dderbyniwyd, nid oedd nifer ohonynt o ansawdd digonol. Roedd yn hollbwysig cael cydymffurfedd ac ysgrifennir at yr aelodau ynglŷn â'r mater hwn fel y crybwyllwyd eisoes.
- O ran camddatganiadau wedi'u cywiro, mae'r Adran Gyllid wedi ychwanegu sylwadau ynghylch pam mae'r rhain wedi digwydd.
- Yn Atodiad A, yr adran gwersi a ddysgwyd, nodwyd pedwar yr oedd angen eu hadolygu, sef y broses ar gyfer ad-daliadau mewnol, y broses ar gyfer cymeradwyo cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a'r rhai sy'n codi fel rhan o'r broses archwilio, ac edrychir ar y rhain i gywiro'r camddatganiadau hyn.
- Mewn perthynas â darpariaethau, roedd dealltwriaeth dechnegol yr oedd angen ei gwella.

Gofynnodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r pwyllgor roi ei awdurdod ac argymell cymeradwyo'r cyfrifon ac felly byddai'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid yn gallu cymeradwyo'r cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau i'w cyflwyno i Archwilio Cymru.
Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod angen i'r pwyllgor gynnal pleidlais ar p'un a ddylid cymeradwyo'r cyfrifon i'w cymeradwyo ynghyd â'r Llythyr Sylwadau. Roedd angen gwneud hyn yn electronig, felly byddai copi o'r cyfrifon yn cael ei anfon at yr aelodau er mwyn iddynt gymeradwyo'r cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau a byddai angen i'r aelodau ddarparu eu llofnod electronig.
Os na ellid cwblhau hyn, gallai aelodau anfon e-bost i ddweud eu bod wedi cymeradwyo'r cyfrifon yn lle llofnodi'r ddogfen yn bersonol.
Roedd angen gwneud hyn cyn gynted â phosibl gan fod y cyfrifon i'w hadolygu a'u cymeradwyo gan yr Archwilydd Cyffredinol ddydd Mawrth nesaf.

**Cytunwyd:**

Cymeradwyodd y pwyllgor y cyfrifon a chytunwyd y byddai e-bost yn cael ei anfon at Gadeirydd y pwyllgor i'w lofnodi

9 **Cynnydd yn Erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22 Chwarteri 1 a 2**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad hwn i'r pwyllgor.

**Prif bwyntiau:**

- Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â chwe mis cyntaf y flwyddyn.
- Roedd yr adroddiad mewn dwy ran mewn perthynas â pherfformiad y tîm a'r farn a roddwyd i aelodau'r pwyllgor i roi sicrwydd bod trefniadau digonol ar waith ar draws holl wasanaethau'r Cyngor o ran rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg.
- Roedd wyth aelod o staff gyda saith aelod o staff yn gweithio ar hyn o bryd wedi'u cefnogi gan ddarparwr allanol i helpu i gwblhau'r cynllun.
- Roedd pandemig COVID-19 o hyd yn effeithio ar y gwaith o gynnal archwiliadau wrth i ymweliadau safle ac ymweliadau ysgol gael eu gohirio; roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda rheolwyr addysg i ailymweld ag ysgolion, a fyddai'n debygol o fod yn

Chwarter 4 y flwyddyn ariannol hon. Byddai hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r pwyllgor maes o law.

- O ran perfformiad, y prif ddangosyddion oedd bod y tîm wedi cwblhau'r cynllun archwilio cytunedig yn unol â'r targed. Nodwyd hyn ym mharagraff 15, a oedd yn dangos bod 30% o'r cynllun wedi'i gyflawni erbyn 30 Medi.
- Roedd cyhoeddi adroddiadau drafft chwe diwrnod yn erbyn targed o ddeg diwrnod a chyhoeddwyd adroddiadau terfynol am bedwar diwrnod gyda tharged o bum diwrnod, a oedd yn galonogol.
- O ran yr adroddiadau sy'n weddill ac a oedd ar ffurf ddrafft ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 12 o'r 14 wedi'u cwblhau.
- Er mwyn rhoi sicrwydd i'r aelodau, roedd y tîm yn dal i hyrwyddo rheolaeth ariannol ar draws pob maes gwasanaeth yn yr hyfforddiant a ddarparwyd ganddynt ac yn codi ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau rheoleiddio ariannol y sefydliad.
- Cyhoeddwyd naw barn archwilio ddiwedd mis Medi: gyda thair barn dda, chwech yn rhesymol a dim un yn anfoddhaol.
- Roedd pum archwiliad hawliadau grant ac roedd pob un ohonynt yn ddiamod ac yn cydymffurfio â darparwr y grant.
- Bu'r tîm hefyd yn ymwneud â choladu a chyhoeddi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Cyfeiriwyd yr aelodau at yr atodiadau, a oedd yn nodi cymhariaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn a chymhariaeth chwarter wrth chwarter ar y dangosyddion perfformiad allweddol er gwybodaeth.
- Roedd gwaith archwilio yn gyfyngedig gan fod y tîm yn brysur gyda materion gwrth-dwyll mewn perthynas â grantiau Llywodraeth Cymru a’r Bartneriaeth Ganol Tref fel cymorth, felly nid adroddwyd ar y dangosyddion perfformiad tan 2021 a byddai hyn yn codi yn 2022.
- Roedd cwblhau 30% o'r cynllun ar y trywydd iawn gyda'r targed o 30%.
- Mae Atodiad D yn nodi rhai diffiniadau o'r hyn yr oedd barnau archwilio'n ymwneud ag ef o ran lefel y sicrwydd a'r hyn y mae diamod ac amodol yn ei olygu o ran yr adroddiadau y bu'r tîm yn ymwneud â hwy.

Gofynnodd y Cadeirydd p’un a oedd y tîm yn gallu llenwi’r llwyth gwaith am weddill y flwyddyn a chadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai angen ailasesu hyn gan fod salwch hirdymor yn y tîm, felly byddai’r rheolwyr yn ymgynghori â’r tîm rheoli yn ystod yr wythnosau nesaf i weld beth ellid ei gyflawni. Byddai hyn yn cael ei adrodd i’r pwyllgor ym mis Ionawr 2022.

**Cytunwyd:**

Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.

10 **Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol 2020/2021**

Fel y trafodwyd o dan eitem 7

11 **SO24/Hepgor SOau Contract: Adroddiad chwarterol yn adolygu'r Cabinet/CM penderfyniadau brys neu hepgor SOau Contract(Chwarter 2, Gorffennaf i Medi)**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad i'r pwyllgor.
Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud ag adroddiadau brys, sef Rheol Sefydlog 24 neu hepgor Rheolau Sefydlog Contractau. Yn ystod y chwarter rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, cafodd un adroddiad ei gymeradwyo fel penderfyniad brys. Roedd hyn yn ymwneud â chostau cludiant o'r cartref i'r ysgol i'r rhai sy'n 16 ac yn hŷn.

Gwnaeth aelod Cabinet y penderfyniad, ac yn yr adroddiad roedd cyfiawnhad priodol dros y penderfyniad brys, a gofnodwyd yn briodol.
Roedd y Prif Archwilydd Mewnol yn fodlon â'r cofnod hwnnw.

**Cytunwyd:**

Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.
tee noted and endorsed the report

12 **Rhaglen Waith**

Dywedodd y Cadeirydd bod cyfarfod pwyllgor ym mis Mai 2022 yn ystod etholiad nesaf y Cyngor ac a fyddai'r cyfarfod pwyllgor hwn yn cael ei gynnal o hyd.
Dywedodd y Swyddog Cymorth Llywodraethu y cytunwyd ar ddyddiadau'r dyfodol ar gyfer yr holl bwyllgorau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai, felly byddai hyn yn cael ei wirio a'i gadarnhau o ran a fyddai cyfarfod y pwyllgor ym mis Mai yn cael ei gynnal o hyd.
Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai angen dileu trafodaeth am y cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol (Chwarter 2) ar gyfer Ionawr 2022 gan iddo gael ei adrodd yn y cyfarfod hwn.

**Cytunwyd:**

Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.

13 **Gwe-ddarllediad o'r Pwyllgor**

Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, 11 Tachwedd 2021 - YouTube

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified